Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND

# Hawlfraint ar gyfer Dysgu ac Addysgu

Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

www.uwtsd.ac.uk/library @UWTSDlib library@uwtsd.ac.uk

# Darparu deunyddiau ar-lein ar gyfer myfyrwyr

- Gyda dysgu ac addysgu ar-lein yn datblygu i fod yn ddull cyflwyno craidd ar gyfer addysg uwch, mae mynediad at ddeunydd dysgu ar-lein o safon uchel yn bwysicach nag erioed er mwyn i fyfyrwyr gwblhau eu hastudiaethau
- Nod y canllaw hwn yw rhoi hyder i chi fod y deunydd rydych yn ei rannu ac yn dweud wrth fyfyrwyr am ei ddefnyddio, ar gael, yn hygyrch ac yn cydymffurfio â hawlfraint
- Mae'n cwmpasu sut i sicrhau bod deunydd testun ar gael, sut i ddangos deunydd ffilm neu ddarlledu'n briodol, a sut i ddefnyddio lluniau

# Trwyddedau hawlfraint


- Mae deddfwriaeth a thrwyddedau hawlfraint yn eich galluogi i ddefnyddio testun, lluniau, ffilm ac ati at ddibenion addysgu heb orfod ceisio caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint
- Mae'r Brifysgol yn darparu mynediad at gynnwys electronig drwy drefniadau trwyddedu gyda chyhoeddwyr
- Hefyd mae gennym drwydded gyda'r CLA (Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint), sy'n caniatáu i ni sganio a dosbarthu darnau o lyfrau ac erthyglau cyfnodolion
- Mae gennym drwyddedau tebyg gyda'r ERA (Asiantaeth Recordio Addysgol) sy'n caniatáu i ni ddefnyddio darnau o deledu a radio daearol y DG

# Deunyddiau testun

- Y ffordd hawsaf o sicrhau bod eich testun yn cydymffurfio â hawlfraint yw defnyddio'ch Rhestrau Adnoddau Ar-lein ar Leganto. Mae'r rhain yn cael eu gwirio gan staff y llyfrgell er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd yn cydymffurfio
- Pan fyddant ar gael, byddwn yn creu dolen â'r e-lyfrau ac erthyglau digidol sydd gennym. Mae'n annhebygol bod ffeiliau a lanlwythwyd, megis fersiynau PDF, yn cydymffurfio
- Gallwn ddarparu penodau neu erthyglau wedi'u digideiddio drwy'ch Rhestrau Adnoddau Ar-lein neu'r ffurflen gais am ddigideiddio
- Mae'n bosibl creu dolen yn ddirwystr ag adnoddau Mynediad Agored ond efallai na chaniateir copïo
- Efallai bod caniatâd ehangach gan ddeunydd Creative Commons

# Trwyddedau Creative Commons

- Mae trwyddedau Creative Commons yn caniatáu i awdur gwaith gadw rheolaeth greadigol dros ei waith hyd yn oed pan fydd yn hapus i bobl eraill ei ddefnyddio
- Mae nifer o lefelau o ganiatâd y gellir eu pennu ar gyfer gwaith
- Mae rhai trwyddedau'n caniatáu i ddefnyddwyr gopïo, ailgymysgu, dosbarthu, arddangos neu berfformio'r gwaith
- Mae trwyddedau eraill yn fwy cyfyngedig. Ni ellir eu newid a gellir eu rhannu dan yr un drwydded yn unig



# Dangos ffilmiau a rhaglenni teledu

- Yn ystod y sefyllfa gyfredol pryd na allwn ddangos ffilmiau wyneb yn wyneb, efallai y gallwn brynu trwydded am ffilm unigol
- Os nad yw fersiwn digidol yn bosibl efallai y bydd yn bosibl digideiddio ein DVDs ein hun a ffrydio fideos ar-lein am gyfnod penodedig (e.e. 1 wythnos) drwy Panopto.  Fodd bynnag, ni allwn ddigideiddio deunydd â mesurau Rheoli Hawliau Digidol (DRM)
- Mae'r Brifysgol yn gallu dibynnu ar adran 32 y ddeddfwriaeth hawlfraint ('enghreifftio i addysgu') i roi ffilmiau a rhaglenni teledu cyfan ar gael fel hyn
- Argymhellir nad yw darlithwyr yn ffrydio deunydd yn fyw oherwydd gallai hyn achosi problemau i fyfyrwyr o ran ei chwarae'n ôl
- Er mwyn cydymffurfio â hawlfraint mae'n well pe bai'r holl ddeunydd hyn yn cael ei gyflwyno drwy'r llyfrgell
- Dylai deunydd a ddarperir drwy'r llwybr hwn gael ei gydnabod yn briodol – y teitl, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd a rhaid i'r holl ddefnyddwyr gytuno i delerau ac amodau defnydd, gan gytuno na fyddant yn copïo'r deunydd, ei lawrlwytho, na'i ddosbarthu ymhellach

# Lluniau

Gellir defnyddio adran 32 y ddeddfwriaeth hawlfraint ('enghreifftio i addysgu') i ddangos lluniau at ddibenion addysgol. Fodd bynnag os ydy lluniau'n cael eu defnyddio at ddibenion addurnol neu farchnata byddai'n well chwilio am luniau heb hawlfraint neu luniau Creative Commons perthnasol

Dyma restr o wefannau sy'n ffynhonnell lluniau heb hawlfraint:

- Creative commons https://ccsearch.creativecommons.org/
- Flickr - creative commons https://www.flickr.com/creativecommons/
- The Met Image and Data Resource https://www.metmuseum.org/about-the-met/policies-and-documents/image-resources
- The Met Digital Collections https://www.metmuseum.org/art/libraries-and-research-centers/watson-digital-collections
- Wikimedia Commons https://commons.wikimedia.org/wiki/Main_Page - mae lluniau, sain a ffilm yma
- Casgliad Lluniau V&A http://collections.vam.ac.uk/ - mae hawlfraint yn parhau ar rai luniau
- Google images https://images.google.com/ - ewch i Settings - Advance Search - Usage Rights
- Pixabay https://pixabay.com/
- Unsplash https://unsplash.com/

# Awgrymiadau

- Cadwch eich cynnwys ar-lein yn ddiogel. Sicrhewch ei fod ar gael i'ch myfyrwyr yn unig, nid i'r cyhoedd yn ehangach
- Byddwch yn deg wrth ddefnyddio deunydd sydd dan hawlfraint gan ddefnyddio ond yr hyn sydd ei angen arnoch i enghreifftio pwynt
- Bydd arnoch angen ganiatâd i gopïo darnau mawr o destun.  Cysylltwch â'r llyfrgell i weld a oes fersiwn electronig ar gael i'w brynu neu oes modd i ni ddigideiddio penodau o fewn trwydded y CLA

# Adnoddau Mynediad Agored ac Adnoddau Addysgol Agored

- Cyhoeddi Mynediad Agored yw darparu mynediad ar-lein rhad ac am ddim a heb gyfyngiadau i ymchwil ysgolheigaidd a adolygwyd gan gymheiriaid.
- Bellach mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion y DG gadwrfa sy'n storio cynnyrch ymchwil y sefydliad ac yn ei roi ar gael yn ddi-rwystr. Mae hyn yn cynnwys traethodau ymchwil, erthyglau cyfnodolion, penodau llyfrau, monograffau ac ati.
- Mae adnoddau addysgol agored (**OER**) yn asedau ar ffurf testun, ar y cyfryngau a digidol sydd â mynediad di-rwystr ac â thrwydded agored sy'n ddefnyddiol at ddibenion dysgu, addysgu ac asesu yn ogystal ag ymchwil.

# Ffynonellau Mynediad Agored

Cadwrfa Ymchwil y Drindod Dewi Sant

Mae Cadwrfa Ymchwil y Drindod Dewi Sant yn cynnwys papurau ymchwil testun llawn, erthyglau cyfnodolion, penodau llyfrau a thraethodau ymchwil a luniwyd gan staff a myfyrwyr y Brifysgol ac sydd ar gael i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim.

CORE

Cenhadaeth CORE yw casglu ynghyd holl gynnyrch ymchwil mynediad agored cadwrfeydd a chyfnodolion dros y byd a'i roi ar gael i'r cyhoedd. Fel hyn mae CORE yn hwyluso mynediad at ymchwil yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiadau i bawb.

Digital Commons Network

Mae'r Digital Commons Network yn dod ag erthyglau ysgolheigaidd testun llawn, rhad ac am ddim ynghyd o gannoedd o brifysgolion a cholegau ar draws y byd.

Google Scholar

Yn ogystal â chwilio Open WorldCat, gallwch osod Google Scholar i chwilio drwy holl adnoddau ar-lein y Drindod Dewi Sant.

Settings > library links > teipiwch 'UW Trinity Saint David'.

Paperity.org

'Paperity is *the* way towards more efficient scholarly communication in all research fields, from Sciences, Technology, Medicine, to Social Sciences, to Humanities and Arts. Our ultimate goal is to aggregate 100% of Open Access literature, published in any place around the world, in any field of research. For latest news, see Paperity Blog or follow us on Twitter and Facebook.'

# Cymorth a chyngor pellach

- Ceir gwybodaeth gyffredinol bellach ar gyfer addysgu ac ymchwil yn y Hwb Hawlfraint ynghyd â'r polisi hawlfraint ac adnoddau hawlfraint defnyddiol eraill
- Ar gyfer unrhyw ymholiadau unigol anfonwch e-bost i copyright@uwtsd.ac.uk